Rhif y Cwmni: 5535254

CYNHADLEDD FWYD

SUSTAINABLE GWYNEDD GYNALADWY CYF

22:11:06

Ar yr 22ain o Dachwedd 2006 trefnodd Sustainable Gwynedd Gynaladwy Cyf gynhadledd a oedd yn canolbwyntio ar fwyd lleol yng Ngwynedd ac a oedd hefyd yn gyfle i ddathlu bwyd lleol. Cynhaliwyd y gynhadledd yng Nghanolfan Cymdeithasol Talysarn, Yr Hen Orsaf, Talysarn.

Pwrpas y gynhadledd oedd amlygu'r gwaith sy'n digwydd eisoes yng Ngwynedd i hyrwyddo bwyd lleol, a'r ymdrechion i ddod yn nes at ein gilydd fel cynhyrchwyr a phrynwyr yn y sir. Roedd y digwyddiad yn ceisio adnabod a chodi ymwybyddiaeth o weithgareddau yng Ngwynedd sy'n hyrwyddo'r defnydd o fwyd lleol, a'r manteision amgylcheddol, economaidd ac o ran iechyd.

Roedd y gynhadledd yn gyfle i asiantaethau yng Ngwynedd ddysgu am gynlluniau hyrwyddo bwyd lleol yng Ngwynedd, a sut allai'r asiantaethau yma weithio gyda'i gilydd i addysgu eraill a'u hysgogi i roi cynlluniau newydd o'r fath ar y gweill. Cafwyd cyfleoedd hefyd i ddysgu sut mae gwaith asiantaethau a busnesau lleol yn ategu projectau eraill yn yr ardal.

Gan fod bwyd yn ffurfio 26% o ôl-troed ecolegol Gwynedd, roedd y digwyddiad yn gyfle i archwilio dulliau o leihau ein heffeithiau negyddol wrth gynhyrchu a dosbarthu bwyd lleol. Cafwyd trafodaethau a gweithdai rhyngweithiol i drafod camau tuag at wella ôl-troed ac ati.

Cafwyd cyfres o siaradwyr yn y bore, gweithdai ymarferol yn y prynhawn a chinio yn defnyddio bwyd lleol wedi ei baratoi gan fyfyrwyr o Goleg Meirion Dwyfor.

Datblygodd y diwrnod i fod yn llwyddiannus iawn gydag adborth positif gan y gynulleidfa ar y diwrnod. Crybwyllwyd llawer o safbwyntiau diddorol gan ysgogi trafodaeth ddiddorol a ffeithiol yng ngweithdai'r prynhawn. Bydd y nodiadau sy'n dilyn yn yr adroddiad hwn yn crynhoi'r darganfyddiadau ac yn amlinellu pa wersi a ddysgwyd ar y diwrnod.

Cadeirydd y Dydd oedd Bethan Russell Owen, Prif Swyddog, Mantell Gwynedd. Cyflwynwyd pob un o'r siaradwyr yn eu tro gan Bethan.

Siaradwr cyntaf y bore oedd Steve Garrett, Marchnad Ffermwyr Glanrafon, Caerdydd. Amlinellodd y pwyntiau canlynol:

- pwrpas y farchnad:
    - "gwerthu cynnyrch Cymreig ac organig
    - helpu cynhyrchwyr lleol i ddod o hyd i farchnad uniongyrchol
    - darparu bwyd da am bris rhesymol i bobl leol"
- dechreuwyd ym 1998 am dair wythnos cyn y Nadolig - r an 35 stondin bob wythnos a tua 1000 o gwsmeriaid
- rheolir gan gr p gwirfoddol (Riverside Community Market Association), gyda tua thri aelod gweithgar (yn cynnwys pobl busnes efo sgiliau gwerthfawr)
- y cam cyntaf oedd ymgynghoriad ymysg y bobl leol
- galwyd y fenter yn "food fair" i ddechrau er mwyn osgoi'r rhwystrau sy'n bodoli o ran trwyddedau marchnadoedd
- rhent isel iawn i'r stondinwyr i ddechrau
- perthynas gyfeillgar efo'r stondinwyr
- pobl o bwys (ee dirprwy faer) yn help i ddechrau
- dechreuwyd gyda grantiau bychain
- rhoddodd adran ddatblygu economaidd y Cyngor grant i'r gr p i dalu'r drwydded; yn ddiweddarach trefnwyd y cwbl o fewn y Cyngor
- yn 2004 sefydlwyd cwmni cyfyngedig Riverside Community Market Association Social Enterprise Ltd i weithredu'r farchnad, tra bod yr hen gr p yn dal i gynnal projectau bychain yn y gymuned
- cynhelir y farchnad bellach yn wythnosol ar lan yr afon o flaen Stadiwm y Mileniwm
- roedd y stondinwyr yn amheus am fynd yn wythnosol i ddechrau, ond gweithiodd pob dim yn dda
- r an mae'r fenter â thrwydded 3 blynedd ac am gyflogi rheolwr/gweithiwr datblygu
- wrth ddewis stondinwyr gwneir yn si r nad oes mwy na thri o'r un fath
- comisiynwyd y gr p gan y WDA i ysgrifennu 'toolkit' ar gyfer marchnadoedd ffermwyr trefol; ar gael oddi wrth: mail@riversidemarket.org.uk

Daeth David Darrell, yr Uned Adfywio Gwledig (cydweithfeydd bwyd) ymlaen, ac esboniodd y pwyntiau isod:

- peilot yng Nghymru ers Ebrill 2004, sefydlodd 75 cydweithfa fwyd mewn ardaloedd dan anfantais
- ar hyn o bryd nid yw'r cydweithfeydd yn prynu dim ond 5% yn lleol
- David Darrell wedi'i gyflogi i ymchwilio i ffynonellau lleol ar gyfer y cydweithfeydd
- yn gyntaf mae angen meithrin garddwriaeth yng Nghymru, oherwydd nad oes digon o lysiau ar gael yn lleol
- gan bod cludiant yn mynd yn ddrutach, bydd cynnyrch lleol yn mynd yn 'rhatach'
- angen i addysg gyfleu o ble mae bwyd yn dod.

Cewch fwy o wybodaeth am yr Uned Adfywio Gwledig ar info@rru.org.uk

Siaradwr olaf y bore oedd Margaret Smyth, Bythynnod Gwyliau Pentre Bach, Llwyngwril, Dolgellau, 01341 250294 (cynhyrchydd lleol), enillwyr Gwobr Amgylcheddol Cymru i Dwristiaeth Gynaladwy yn 2003. (2003 Wales Environment Award for Sustainable Tourism). Eglurodd Margaret sut oedd y busnes wedi datblygu.

- busnes o lety i ymwelwyr a garddwriaeth wedi bod ar waith ers 27 mlynedd

- cynhyrchu llysiau (0.25 erw) ac wyau a bwydydd a gynhyrchir o'r rhain, a phlanhigion

- permaculture, ond dim tystysgrif organig oherwydd ei fod yn rhy ddrud ar gyfer graddfa fach y busnes

- marchnata:

    - gwerthu'r cynnyrch i'r ymwelwyr a choginio iddyn nhw
    - gwerthu mewn marchnadoedd ffermwyr lleol
    - cynllun bocsys
    - cyflenwr i'r gydweithfa fwyd cyflawn (a chwsmer yr un pryd)
    - anodd gwerthu i siopau oherwydd eu bod eisiau cynnyrch sy'n edrych yn berffaith
    - yn gyffredinol, nid oes gan gynhyrchwyr ddigon o amser i hysbysebu eu cynnyrch, felly nid yw'n hysbys lle mae bwyd lleol

ar gael; ond os ydy bwytai ayyb i ddefnyddio cynnyrch lleol mae angen iddo fod yn hawdd cael gafael arno

- adnoddau dynol:
    - yn cyflogi un person llawn-amser, un rhan-amser + gwirfoddolwyr drwy World Wide Opportunities on Organic Farms
    - anodd cael cynorthwywyr dibynadwy
    - blwyddyn y colegau ddim yn help (dylai fod o Ionawr i Ragfyr er mwyn trefnu cyfnodau profiad gwaith ystyrlon)

- dyddiau agored, ymweliadau ysgol
- wedi ennill sawl gwobr, yn cynnwys gwobr twristiaeth gynaladwy Rhwydwaith Arena

Am fwy o fanylion ar Fythynnod Pentre Bach, ewch i www.pentrebach.com

Diolchodd y cadeirydd i'r siaradwyr, ac agorwyd y sesiwn gwestiynau, a chodwyd ambell bwynt gan y gynulleidfa, sef :-

(1) 'Economies of scale'

a. angen digon o gwsmeriaid i fenter fod yn hyfyw; gall hyn orfodi glastwreiddio egwyddorion gwyrdd

b. marchnadoedd bach yn goroesi drwy gynnwys crefftau

(2) Angen i farchnad oroesi fel busnes, dim modd byw ar grantiau yn y tymor hir; felly mae angen aelodau ar y pwyllgor sy'n gwybod busnes, marchnata ayyb.

(3) Anodd i fusnesau bach fforddio tystysgrif organig

(4) Problem i ysgolion nad oes digon o bres i wneud projectau fel ymweliadau fferm a dim modd i ysgolion geisio am y rhan fwyaf o grantiau

a. ateb posibl:
ymestyn y project bwydlenni iach sydd gan Gwynedd ar y Cyd i gynnwys addysg am fwyd

b. ateb posibl arall:
SGG neu gorff tebyg i geisio am grantiau i dalu am deithiau ysgol (fel a ddigwyddodd unwaith o'r blaen pan ymwelodd Ysgol Felinwnda â Thrigonos dan nawdd SGG)

(5) Angen addysgu rhieni hefyd

(6) Dim ond 2% o ôl-troed ecolegol bwyd ydy cludiant, bwyta'n organig a llai o gig yn cael mwy o effaith

(7) Problem cael grantiau amaethyddol i arddwriaeth

a. ateb 1:
mae posibiliadau'n bodoli nad ydyn nhw'n hysbys; cysyllter â David Darrell neu Brifysgol Aberystwyth am wybodaeth

b. ateb 2:
haws i gydweithfeydd gael grantiau nag unigolion

****

Ar ôl y sesiwn gwestiynau roedd toriad i fwynhau cinio wedi ei baratoi gan fyfyrwyr o Coleg Meirion Dwyfor, Dolgellau, o dan ofal Mrs Wena Elias, ac yn defnyddio cynnyrch lleol.

Yn y prynhawn rhannwyd y gynulleidfa i wahanol weithdai, sef

Gweithdy Judith Owen, Ysgol Gynradd Nefyn, oedd yn gwneud project ar ardd ysgol. Eglurodd:

- gardd yn Ysgol Nefyn ers tair blynedd
- Judith ddechreuodd y project; pan oedd yn llwyddiannus cafodd gefnogaeth gan aelodau eraill yr ysgol
- ysgogiad: plant ddim yn gwybod sut mae llysiau'n tyfu
- gardd lysiau a blodau
- gwaith yn yr ardd yn cael ei ddefnyddio i ddysgu rhannau o'r cwricwlwm, megis gwyddoniaeth, mathemateg, addysg gorfforol
- dysgu heb gystadleuaeth
- addysgu rhieni drwy osod gwaith cartref i'r plant: "Dywedwch wrth eich rhieni am fynd â i chi i ..."
- arian yn broblem; ond wedi ennill rhywfaint mewn cystadlaethau
- anodd cael rhieni i helpu; hen bobl ddaw i helpu
- Clwb Ffermwyr Ifanc wnaeth ffensys ayyb yn wirfoddol o dan y Cynllun Bywyd Gwledig

Pwyntiau pwysig wedi codi o'r project

- Y plant yn dysgu o le mae bwyd yn dod

- Dechrau o'r ymarferol fel bod y ddamcaniaeth yn gwneud mwy o synnwyr

- Ffordd dda o ddysgu pethau o'r cwricwlwm megis addysg gorfforol heb gystadleuaeth – rhoi hyder i bawb

- Garddio yn dda i iechyd meddwl

- Wedi'i wneud er gwaetha'r cwricwlwm – eisiau i'r cwricwlwm newid (gobaith yn yr un newydd)

Peth pwysicaf i'r cyflwynydd:

- Mae'n rhaid i chi fod yn barod i fentro

- Mae angen cefnogaeth – neb yn gallu rhedeg project ar ei ben ei hun

Canlyniadau ymarferol**:**

- Ysgol Nefyn i gael 'polytunnel' am ddim drwy help BTCV

- project marchnad ffermwyr i Gaernarfon wedi creu cysylltiadau efo marchnad Glanrafon
- neges ar gyfer cynllun strategol SGG: ystyried project sy'n galluogi plant ysgol i ymweld â ffermydd
- neges ar gyfer cynllun strategol SGG: ystyried project i ysgogi a chefnogi ffermwyr i farchnata'n lleol (rhestr o gynhyrchwyr lleol, rhwydwaith o ffermwyr sy'n rhannu adnoddau a gwybodaeth ac yn marchnata ar y cyd, ...)

Cydweithfeydd Bwyd - Gweithdy June Jones, Uned Adfywio Gwledig/Rural Regeneration Unit

- Cychwynnodd June weithio ar y project yma yn 2006. Mae cynllun o'r math yma yn llwyddiannus iawn yn barod yn Cumbria, ac yn cael ei redeg yng Nghymru gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r cynllun cydweithfeydd bwyd yn rhan o raglen "Her Iechyd Cymru". Bwriad y cynllun yw sicrhau fod trigolion Cymru yn bwyta o leiaf 5 ffrwyth/llysieuyn y dydd.

- Ar hyn o bryd mae dros 100 o gydweithfeydd yng Nghymru, gyda 3 yng Ngwynedd, sef Peblig, Abergwyngregyn a Phwllheli.

- Grwpiau gwirfoddol sy'n rhedeg y cydweithfeydd gyda chymorth yn ambell i le gan Gymunedau'n Gyntaf. Mae grwpiau yn cyfarfod mewn neuaddau pentref, capeli, clybiau'r henoed ac yn y blaen. Rhedir rhai cydweithfeydd o gartrefi preifat.

- Y grwp sy'n penderfynu pwy yw eu cyflenwyr llysiau a ffrwythau, ac mae'r bagiau yn costio £2. Mae'n bosib cael bagiau £1, £2, £4, a £6, yn dibynnu ar y cwsmer.

- Mae'r cynnyrch yn ddibynnol ar beth sy'n cael ei dyfu ar wahanol adegau o'r flwyddyn.

- Rhan o waith June ar gychwyn y cynllun fydd mynd o gwmpas y pentref/tref i ofyn am farn perchnogion siopau lleol, ac wedyn adrodd yn ôl i bwyllgor cynllunio'r project, ac iddynt benderfynu mynd ymlaen ai peidio.

- Y project yn dod â'r gymuned yn agosach, ac yn aml projectau eraill yn codi trwy sgwrsio tra bydd y bocsys yn cael eu rhannu.

- Nid oes elw yn y cynllun i'r grwpiau

Dau beth pwysig:

1. Falch o nodi faint o gydweithfeydd bwyd sydd ar waith

2. Dau olwg:

   i) darparu cyfle i fwyta'n iachach

   ii) ffynonellau lleol – adfywio cynhyrchwyr

Pwyntiau eraill:

3. Adfywio – elfen addysgiadol – oedran – yn well gan y genhedlaeth iau gynnyrch hawdd ei goginio

4. Cydweithfeydd – hunangynhaliol – perchnogaeth

5. Dim digon o dyfwyr lleol – dim digon o ffermwyr lleol yn tyfu

6. Cydweithfeydd yn helpu'r gymuned – undebau credyd – sbardun i weithredu ar bethau eraill.

Y peth pwysicaf i'r cyflwynydd:

1. Cyfrifoldeb y grwp – y grwp yn gyfrifol am y gydweithfa

2. Pwysigrwydd bwyta yn iach

Get Cooking – Gweithdy gan Llinos Owen, Uned Polisi, Cyfadran Gofal, Cyngor Gwynedd, Hwylusydd Iechyd a Lles/Health & Wellbeing Facilitator.

Dau beth pwysig:

1. Angen meddwl yn ehangach na rhieni ifanc yn unig. Angen darpariaeth dysgu coginio i bobl ifanc a phlant hefyd

2. Angen sicrhau cefnogaeth y bobl allweddol yn y gymuned

Pwyntiau eraill:

3. Perygl o golli hen fedrau – tyfu llysiau, tyddynwyr – angen iddynt drosglwyddo eu medrau

4. Pwysig hyrwyddo
- tyfu
- coginio
- blasu
- byw a bwyta'n iach

Marchnad Glanrafon

Pwyntiau pwysig:

1. Dyfalbarhad

2. Ymrwymiad

3. Cyfleoedd (gweithredu ar unrhyw gyfle)

4. Meddwl wysg eich ochr

5. Lleoliad

6. Defnyddio partneriaethau (gwybodaeth ayyb)

7. Hyder

8. Dysgu oddi wrth eraill

Y peth pwysicaf i'r cyflwynydd:

1. Pobl ymroddedig a galluog ar y pwyllgor

2. Cynghorwyr yn cefnogi! (pwy rydych chi'n ei adnabod!)

3. Partneriaethau

4. Ymddiriedaeth a hyder yn eich mudiad/project ayyb

Strategaeth leol

Dau beth pwysig:

1. Cydweithfeydd bwyd yn defnyddio ffynonellau lleol a'r problemau sy'n eu hwynebu i sicrhau hyn

2. Sut ydych chi'n mesur cynnydd amlwg mewn iechyd?

Pwyntiau eraill:

3. Rhinweddau ydau noeth

4. Anhawster oherwydd diffyg dewis yn y cynlluniau blychau

5. Gall cynlluniau gwirfoddol lleol lwyddo

6. Anogaeth i gynhyrchwyr mwy – angen strategaeth ehangach

7. Cyfathrebu rhwng mudiadau ac asiantaethau

8. Hyd a lled y gofyn am gynnyrch lleol

Y peth pwysicaf i'r cyflwynydd:

1. Yr angen i chwilio'n barhaus am wybodaeth/partneriaid/cefnogaeth/asiantaethau

****

Gweithdy Ben Gregory, Project Bwyd Dyffryn Nantlle

Sefydlwyd Llysiau Lleu yn Ebrill 2002 gyda'r amcan o hyrwyddo bwyta'n iach drwy annog tyfu llysiau. Cafwyd cefnogaeth gan Fentrau Bwyd Cymunedol y Cynulliad am ddwy flynedd, ac arian ychwanegol gan Gynghrair Iechyd Lleol a Chymunedau'n Gyntaf.

Ffurfiwyd partneriaeth gyda Chymdeithas Tai Eryri, Penygroes, Trigonos, Plas Baladeulyn, Nantlle (info@trigonos.org) a thrigolion lleol. Ers ei ffurfio, trefnwyd nifer o ddigwyddiadau :

- Yng ngaeaf 2002/3 cynhaliwyd cyfres o ddosbarthiadau ar dyfu llysiau organig
- ymweliad â chynllun gwrtaith yn y Bala a Chydweithfa Fwyd yn y Rhyl
- Prynwyd offer cymunedol/biniau gwrtaith
- Trefnwyd sesiynau ymarferol ar y tyddyn
- Ymgymerwyd ag arolwg tir yn yr ardal i dyfu llysiau
- Ffurfiwyd cysylltiadau gydag asiantaethau iechyd

Ers hynny, yn 2004 sefydlwyd cydweithfa fwyd i werthu llysiau lleol ffres ac organig, ac erbyn 2006 roedd 20 o aelodau.

****

Trefnwyd y gynhadledd gyda chymorth Cyngor Gwynedd, Undeb Amaethwyr Cymru, a Galluogi Gwynedd trwy gyfrwng Mantell Gwynedd.

Diolch hefyd i Bethan Russell Owen, Cadeirydd y Dydd, i'r holl siaradwyr gwadd, Carys Pritchard a'i staff yng Nghanolfan Talysarn, a myfyrwyr Coleg Meirion Dwyfor, Dolgellau o dan ofal Mrs Wena Elias, am drefnu'r cinio.

Sustainable Gwynedd Gynaladwy
1A Parc Busnes Penamser
Porthmadog
Gwynedd
LL49 9GB

Tel/Ffôn: 01766 543 033 (swyddfa / office)
Fax/Ffacs: 01766 512608
Ebost/Email: post@gwyneddgynaladwy.org.uk
www.gwyneddgynaladwy.org.uk